

Teitl: Datblygu Sefydliadau Diogel i Blant a Phobl Ifanc – Cynlluniau tan 2015	Asesiad o Effaith
	Rhif yr Asesiad: MOJ142
	Dyddiad: Mawrth 2012
	Cam: Terfynol
	Ffynhonnell yr ymyriad: Domestig
	Math o fesur: Arall
Adran neu asiantaeth arweiniol: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr Adrannau neu asiantaethau eraill: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (Uned Polisiâu Cyfiawnder Ieuenctid)	Cyfeiriad cyswllt ar gyfer ymholiadau: secureestatestrategy@yjb.gov.uk

Crynodeb: ymyriadau a dewisiadau

Beth yw'r broblem sy'n cael ei hystyried? Pam mae angen ymyriad gan y llywodraeth?

Mae'r gostyngiad ym mhoblogaeth pobl ifanc yn y ddalfa dros y 24 mis diwethaf yn arbennig wedi arwain at wario gormod o arian ar ystâd â lefelau sylweddol o gapasiti gormodol. Ar yr un pryd, mae cyfraddau aildroseddu'r bobl ifanc a ryddheir o sefydliadau diogel yn dal i fod yn annerbyniol o uchel. Mae angen ymyriad gan y llywodraeth er mwyn sicrhau bod yr ystâd yn gweithredu mor gost-effeithiol â phosibl ac yn parhau i alluogi pobl ifanc yn y ddalfa i gael eu hadsefydlu'n llwyddiannus.

Ar ôl cyfnod ymgynghori cyhoeddus, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei chynlluniau ar gyfer sefydliadau diogel i rai dan 18 sy'n amlinellu nifer o ymrwymadau i roi sylw i'r materion uchod.

Beth yw amcanion y polisi a'r effeithiau bwriadedig?

Nod y cynigion yw sicrhau bod pobl ifanc mewn sefydliadau diogel yn cael gwasanaethau sy'n eu galluogi i fyw bywydau llwyddiannus a chyflawn, heb droseddu, wrth ddychwelyd i'w cymunedau. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw mewn sefydliad diogel arbenigol a neilltuol, lle mae gwasanaethau wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn ac unigolyn ifanc, mewn amgylchedd sy'n eu cadw'n ddiogel ac yn gwneud y mwyaf o'u potensial.

Mae dwy brif effaith fwriadedig i'r cynigion: sicrhau y gall yr ystâd weithredu'n effeithlon, drwy leihau capasiti gormodol, a gwella gwaith adsefydlu a lleihau aildroseddu mewn perthynas â'r bobl ifanc hynny sy'n dod i gysylltiad â sefydliadau diogel.

Pa opsiynau polisi a ystyriwyd, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau eraill heblaw rheoleiddio? Cyfiawnhewch eich hoff opsiwn (manylion pellach yn y gronfa dystiolaeth)

Yr opsiynau polisi a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith hwn yw:

- Opsiwn 0: gwneud dim (achos sylfaenol)
- Opsiwn 1: cyflenwi'r cynigion a amlinellir yn y cynllun datblygu.

Cyflawnir hyn drwy:

- ymateb i'r gostyngiad mewn galw drwy ddatgomiysynu capasiti gormodol
- adolygu gwasanaethau a gomiysynir i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well
- comiysynu gwasanaethau'n fwy effeithiol drwy gynnwys partneriaid cydgomiysynu'n well
- cydweithio'n effeithiol â darparwyr i gefnogi a gwella gwaith adsefydlu a lleihau aildroseddu gan bobl ifanc sy'n gadael y ddalfa.

A gaiff y polisi ei adolygu? Caiff ei adolygu. **Os yn berthnasol, nodwch ddyddiad yr adolygiad:** 3/2015

Beth yw sail yr adolygiad hwn? Amherthnasol. **Os yn berthnasol, nodwch ddyddiad y cymal machlud:** Mis/Blwyddyn

A oes trefniadau ar waith i ganiatáu casglu gwybodaeth monitro'n systematig er mwyn adolygu'r polisi yn y dyfodol?

Oes

Llofnod a chadarnhad:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad o Effaith ac rwyf yn fodlon, ac ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn rhoi golwg resymol ar gostau, buddion ac effaith debygol y prif ddewisiadau.

Llofnod y Gweinidog â chyfrifoldeb:

C. Jones B.L.

Dyddiad:

Mawrth 2012

Disgrifiad

Mae'r Achos Sylfaenol yn tybio y bydd y ffurfweddiad presennol a'r gwasanaethau a gyflenwir mewn sefydliadau diogel i rai dan 18 yn aros yr un fath dros gyfnod yr adolygiad o wario tan 2015.

Sylfaen Pris Blwyddyn	Sylfaen GP Blwyddyn	Cyfnod Amser Blynyddoedd	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel: Dewisol	Uchel: Dewisol	Amcangyfrif Gorau:

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trawsnewidiad (Pris Cyson) Blynyddoedd		Cyfartaledd Blynyddol (heb y trawsnewidiad) (Pris Cyson)		Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol)
Isel	Dewisol		Dewisol		Dewisol
Uchel	Dewisol		Dewisol		Dewisol
Amcangyfrif Gorau					

Disgrifiad o'r costau ariannol allweddol, a'u maint, gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Yn 2010/11, gwariodd yr YJB £261.285m ar gomisiynu lleoedd diogel. Mae hyn yn ostyngiad 14.5% oddi ar £305.6m yn 2009/10. Pe baem yn parhau i gomisiynu'r un gwasanaethau yn 2012, byddai'r costau hyn yn cynyddu i £270.1m.

Costau anariannol allweddol eraill gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae'n ofynnol bod newidiadau i wasanaethau a gomisiynir yn adlewyrchu'r gostyngiad diweddar mewn galw a'r newidiadau cysylltiedig i anghenion pobl ifanc sydd wedi'u lleoli mewn sefydliad diogel ar hyn o bryd. Mae'n berygl na fyddai hyn yn lleihau cyfraddau ailddoseddu.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trawsnewidiad (Pris Cyson) Blynyddoedd		Cyfartaledd Blynyddol (heb y trawsnewidiad) (Pris Cyson)		Cyfanswm Budd (Gwerth Presennol)
Isel	Dewisol		Dewisol		Dewisol
Uchel	Dewisol		Dewisol		Dewisol
Amcangyfrif Gorau					

Disgrifiad o'r buddion ariannol allweddol, a'u maint, gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Pe bai'r boblogaeth yn y ddalfa dan 18 yn cynyddu yn erbyn y rhagfynegiadau presennol, mae'r Achos Sylfaenol yn lliniaru'r risg y bydd angen prynu lleoedd diogel yn ôl y galw ar fyr rybudd ac am gost uwch i bob lle. Mae'r arwyddion presennol yn awgrymu y gallai costau prynu lleoedd yn ôl y galw fod gymaint â 12% yn uwch na'r prisiau presennol wedi'u contractio.

Buddion anariannol allweddol eraill gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Tybiaethau/sensitifeddau/risgiau allweddol

Cyfradd disgownt (%)

Mae'r gostyngiad diweddar mewn galw am le yn y ddalfa wedi bod amlycaf yn y grŵp oed 10 i 15. Tybir y bydd y gostyngiad hwn yn parhau. Pe bai'r niferoedd hyn yn codi'n annisgwyl, gallai hynny arwain at ddiffyg lle yn y system ac angen i gomisiynu mwy o leoedd ar fyr rybudd ac am gost uwch na phe na bai datgomisiynu wedi digwydd.

Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd yn gwneud tybiaeth allweddol na fydd dim cynnydd annisgwyl mewn galw am leoedd diogel sy'n effeithio'n ormodol ar gostau comisiynu.

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cywerth Blynyddol) (£m):			O fewn cwmpas OIOO?	Mesur yn gymwys fel
Costau:	Buddion:	Net:	Ydy/Nac ydy	MEWN/ALLAN

Gorfodaeth, gweithredu ac effeithiau mwy cyffredinol

Beth yw ardal ddaearyddol y polisi/opsiwn?	Cymru a Lloegr				
Ar ba ddyddiad y daw'r polisi i rym?	01/04/2012				
Pa sefydliad(au) fydd yn gorfodi'r polisi?	YJB/Y Weinyddiaeth Cyfiawnder				
Beth yw'r newid blynyddol mewn cost gorfodaeth (£m)?					
A yw'r orfodaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?	Ydy				
A yw gweithredu'n mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE?	Amherthnasol				
Beth yw'r newid mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr cyfwerth â CO ₂ ? (Miliynau o dunelli metrig o CO ₂)	Masnachol:		Anfasnachol:		
A yw'r cynnig yn effeithio ar gystadleuaeth?	Ydy				
Pa gyfran (%) o gyfanswm costau/buddion GP a gaiff ei phriodoli'n uniongyrchol i ddeddfwriaeth sylfaenol, os yn berthnasol?	Costau:		Buddion:		
Dosbarthiad cost flynyddol (%) yn ôl maint y sefydliad (heb y trawsnewidiad) (Pris Cyson)	Micro	< 20	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn yn eithriedig?	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes	Nac oes

Profion effaith benodol: rhestr wirio

A yw eich dewis polisi/cynnig yn effeithio ar...?	Effaith	Tudalen yn yr asesiad o effaith
Dyletswyddau cydraddoldeb statudol¹ <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Ddyletswyddau Cydraddoldeb Statudol</u>	Oes	
Effeithiau economaidd		
Cystadleuaeth <u>Canllawiau Prawf yr Asesiad o Effaith ar Gystadleuaeth</u>	Oes	
Cwmnïau bach <u>Canllawiau'r Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach</u>	Nac oes	
Effeithiau amgylcheddol		
Asesiad nwyon tŷ gwydr <u>Canllawiau Prawf yr Asesiad o'r Effaith ar Nwyon Tŷ Gwydr</u>	Nac oes	
Materion amgylcheddol ehangach <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Faterion Amgylcheddol Ehangach</u>	Nac oes	
Effeithiau cymdeithasol		
Iechyd a lles <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Iechyd a Lles</u>	Oes	
Hawliau dynol <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Hawliau Dynol</u>	Oes	
System cyfiawnder <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Gyfiawnder</u>	Oes	
Prawfesur gwledig <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig</u>	Nac oes	
Datblygu cynaliadwy	Oes	
<u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy</u>		

¹ Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys adrannau Whitehall, ystyried effaith eu polisiâu a'u mesurau ar hil, anabledd a rhywedd. Bwrddir ymestyn y gofyniad hwn i ystyried dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gynnwys oed, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred ac ailbennu rhywedd o fis Ebrill 2011 ymlaen (i Brydain Fawr yn unig). Mae'r Pecyn Offer yn rhoi cyngor am ddyletswyddau cydraddoldeb statudol awdurdodau lleol â chylch gwaith yng Ngogledd Iwerddon.

Disgrifiad

Gweithredu'r cynigion a amlinellir yn y cynllun datblygu. Bydd hyn yn cynnwys:

- ad-drefnu sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc drwy ymateb i'r gostyngiad yn y galw
- comisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol er mwyn gwella gwaith adsefydlu a lleihau aildroseddu gan blant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa.

Sylfaen Pris Blywyddyn	Sylfaen GP Blywyddyn	Cyfnod Amser Blynyddoedd	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel: Dewisol	Uchel: Dewisol	Amcangyfrif Gorau:

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trawsnewidiad (Pris Cyson) Blynyddoedd	Cyfartaledd Blynyddol (heb y trawsnewidiad) (Pris Cyson)	Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol)
Isel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Uchel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif Gorau			

Disgrifiad o'r costau ariannol allweddol, a'u maint, gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

1a) Datgomisiynu capasiti gormodol
 Gallai darparwyr cartrefi plant diogel wynebu costau o ganlyniad i'r ffaith bod yr YJB wedi diweddarau contractau gwelyau cartrefi plant diogel. Gallai costau cynnal y cartrefi hyn gynyddu pe bai'r gwelyau hyn yn aros yn wag. O gyllideb sylfaenol 2011/12, bydd hyn yn arwain at arbedion o £3.8m yn 2012/13 ar gontractau cartrefi plant diogel. Mae'r tabl ar dudalen 12 yn dangos y cyllidebau blynyddol dros gyfnod y contractau, tan fis Mawrth 2014.

Costau anariannol allweddol eraill gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

1b) Adolygu gwasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn well
 Ar ôl yr adolygiad o angen, efallai y ceir costau ychwanegol wrth gomisiynu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hyn.
 1c) Prosesau comisiynu mwy effeithiol
 Ni fydd cyflwyno prosesau comisiynu mwy effeithiol yn achosi costau ychwanegol. Rhagwelir y bydd dadansoddiad o angen yn achosi rhai costau o ran adnoddau staff a gweinyddu.
 1ch) Cydweithio'n fwy effeithiol â darparwyr diogel
 Gallai'r opsiwn polisi hwn achosi costau ychwanegol – yn enwedig wrth werthuso ymyriadau neu ddatblygu mecanweithiau newydd i ledaenu arferion yn effeithiol.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trawsnewidiad (Pris Cyson) Blynyddoedd	Cyfartaledd Blynyddol (heb y trawsnewidiad) (Pris Cyson)	Cyfanswm Budd (Gwerth Presennol)
Isel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Uchel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif Gorau			

Disgrifiad o'r buddion ariannol allweddol, a'u maint, gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

1a) Ad-drefnu sefydliadau diogel
 Drwy unioni'r ddarpariaeth yn well â'r galw, gellir arbed costau. Mae hyn yn sicrhau gwell defnydd o adnoddau cyhoeddus.

Buddion anariannol allweddol eraill gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

1b) Adolygu gwasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn well
 Bydd adolygu'r gwasanaethau presennol yn galluogi'r YJB i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn diwallu anghenion pobl ifanc yn well. Wrth wneud hynny, rydym yn ceisio lleihau'r risg o aildroseddu a fydd yn arwain at arbedion costau.
 1c) Prosesau comisiynu mwy effeithiol
 Drwy gyflwyno prosesau comisiynu mwy effeithiol – a chynnwys y cyd-gomisiynydd – rydym yn ceisio sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n fwy effeithlon ac yn cael eu targedu at ddiwallu anghenion plant

a phobl ifanc yn y ddalfa.

1ch) Cydweithio'n effeithiol â darparwyr diogel

Bwriad cefnogi darparwyr i gyflenwi ymyriadau sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o effeithiolrwydd yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr ymyriadau sy'n ofynnol i leihau'r risg o aildroseddu pan gânt eu rhyddhau.

Tybiaethau/sensitifeddu/risgiau allweddol

Cyfradd disgownt (%)

Mae'r gostyngiad diweddar mewn galw am le yn y ddalfa wedi bod amlycaf yn y grŵp oed 10 i 15. Tybir y bydd y gostyngiad hwn yn parhau. Pe bai'r niferoedd hyn yn codi'n annisgwyl, gallai hynny arwain at ddiffyg lle yn y system ac angen i gomisiynu mwy o leoedd ar fyr rybudd ac am gost uwch na phe na bai datgomisiynu wedi digwydd.

Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd yn gwneud tybiaeth allweddol na fydd dim cynnydd annisgwyl mewn galw am leoedd diogel sy'n effeithio'n ormodol ar gostau comisiynu.

Mae tystiolaeth o ymchwil yn awgrymu y gellir lleihau'r risg o aildroseddu'n effeithiol, ymysg ffyrdd eraill, drwy sicrhau bod gwasanaethau wedi'u hanelu at ddiwallu anghenion pobl ifanc. Felly, rydym yn tybio y bydd yr opsiynau a gyflwynir yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr gyflenwi gwasanaethau sy'n gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel.

Efaith uniongyrchol ar fusnes (Cywerth Blynyddol) (£m):

O fewn cwmpas OIOO?

Mesur yn gymwys fel

Costau:

Buddion:

Net:

Ydy/Nac ydy

MEWN/ALLAN

Gorfodaeth, gweithredu ac effeithiau mwy cyffredinol

Beth yw ardal ddaearyddol y polisi/opsiwn?	Opsiyau				
Ar ba ddyddiad y daw'r polisi i rym?	01/04/2012				
Pa sefydliad(au) fydd yn gorfodi'r polisi?					
Beth yw'r newid blynyddol mewn cost gorfodaeth (£m)?					
A yw'r orfodaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?	Ydy/Nac ydy				
A yw gweithredu'n mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE?	Ydy/Nac ydy				
Beth yw'r newid mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr cyfwerth â CO ₂ ? (Miliynau o dunelli metrig o CO ₂)	Masnachol:		Anfasnachol:		
A yw'r cynnig yn effeithio ar gystadleuaeth?	Ydy/Nac ydy				
Pa gyfran (%) o gyfanswm costau/buddion GP a gaiff ei phriodoli'n uniongyrchol i ddeddfwriaeth sylfaenol, os yn berthnasol?	Costau:		Buddion:		
Dosbarthiad cost flynyddol (%) yn ôl maint y sefydliad (heb y trawsnewidiad) (Pris Cyson)	Micro	< 20	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn yn eithriedig?	Oes/ Nac Oes	Oes/ Nac Oes	Oes/ Nac Oes	Oes/ Nac Oes	Oes/ Nac Oes

Profion effaith benodol: rhestr wirio

A yw eich dewis polisi/cynnig yn effeithio ar...?	Effaith	Tudalen yn yr asesiad o effaith
Dyletswyddau cydraddoldeb statudol² <u>Canllawiau'r Prawf o Effaith Dyletswyddau Cydraddoldeb Statudol</u>	Nac oes	
Effeithiau economaidd		
Cystadleuaeth <u>Canllawiau Prawf yr Asesiad o'r Effaith ar Gystadleuaeth</u>	Nac oes	
Cwmnïau bach <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Gwmnïau Bach</u>	Nac oes	
Effeithiau amgylcheddol		
Asesiad nwyon tŷ gwydr <u>Canllawiau Prawf yr Asesiad o'r Effaith ar Nwyon Tŷ Gwydr</u>	Nac oes	
Materion amgylcheddol ehangach <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Faterion Amgylcheddol Ehangach</u>	Nac oes	
Effeithiau cymdeithasol		
Iechyd a lles <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Iechyd a Lles</u>	Nac oes	
Hawliau dynol <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Hawliau Dynol</u>	Nac oes	
System cyfiawnder <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Gyfiawnder</u>	Nac oes	
Prawfesur gwledig <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig</u>	Nac oes	
Datblygu cynaliadwy <u>Canllawiau'r Prawf o'r Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy</u>	Nac oes	

² Mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys adrannau Whitehall, ystyried effaith eu polisiau a'u mesurau ar hil, anabledd a rhywedd. Bwriedir ymestyn y gofyniad hwn i ystyried dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gynnwys oed, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred ac ailbennu rhywedd o fis Ebrill 2011 ymlaen (i Brydain Fawr yn unig). Mae'r Pecyn Offer yn rhoi cyngor am ddyletswyddau cydraddoldeb statudol awdurdodau lleol â chylch gwaith yng Ngogledd Iwerddon.

Y sail dystiolaeth (ar gyfer y dalenni crynodeb) Nodiadau

Cyfeiriadau

Rhif	Deddfwriaeth neu gyhoeddiad
1	Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2010) <i>Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwyr yn Effeithiol</i> Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
2	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2011) <i>Keppel Unit Process Evaluation</i> . Llundain: YJB.
3	Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (2011) <i>'I think I must have been born bad': Emotional wellbeing and mental health of children and young people in the youth justice system</i> . Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.
4	Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2010) <i>Cosbi Anfantais: Proffil o Blant yn y Ddalfa</i> .
5	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2005) <i>Strategy for the Secure Estate for Children and Young People 2005/06 to 2007/08</i> . Llundain: YJB.
6	Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2011) <i>The Youth Justice System in England and Wales – Reducing offending by young people</i> . Llundain: Llywodraeth EM.

Y sail dystiolaeth (ar gyfer y dalenni crynodeb)

Rhagarweiniad

1. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu cynlluniau ar gyfer sefydliadau diogel i rai dan 18 yn y Papur Gwyrdd 'Torri'r Cylch' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010.³
2. Mae'r gwaith o ddatblygu cynlluniau i sefydliadau diogel i rai dan-18 yn seiliedig ar dri dylanwad penodol:
 - ad-drefnu sefydliadau diogel ar ôl y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu neu eu remandio yn y ddalfa
 - yr angen i barhau i wella canlyniadau i bobl ifanc, gan leihau aildroeddu, ac
 - yr angen i fodloni ymrwymadau'r adolygiad o wario.
3. Mae'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu safbwyntiau rhanddeiliaid a gasglwyd fel rhan o'r cyfnod ymgynghori tri mis. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y cynigion a wnaethpwyd ar ôl y broses ymgynghori.
4. Bwriad y cynigion yw ceisio rhoi sylw i broblem capasiti gormodol mewn sefydliadau diogel ar ôl gostyngiadau sylweddol mewn galw. Maent hefyd yn ceisio unioni problem cyfraddau aildroeddu uchel ymysg pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa. Felly, mae ein hopsiynau wedi ystyried sut i ad-drefnu'r sefydliadau i gael gwared â chapasiti sbâr gan geisio sicrhau y bydd strwythur y sefydliadau yn y dyfodol yn ein galluogi i wella canlyniadau aildroeddu.
5. Mae'n bwysig bod y gwaith o ddatblygu sefydliadau diogel, nawr ac yn y dyfodol, yn gweithio'n unol â set o egwyddorion clir a chydlynol sy'n cydnabod bod angen dulliau neilltuol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn y ddalfa. Diben amlinellu set glir o egwyddorion yw:
 - rhoi fframwaith ar gyfer comisiynu a chyflenwi gwasanaethau yn y ddalfa sy'n cael ei adlewyrchu ar bob cam yn y broses gomisiynu
 - siapio cyfeiriad a datblygiad sefydliadau diogel yn y dyfodol.
6. Mae'r YJB yn ymrwymo i gynnwys yr egwyddorion hyn yn eu prosesau comisiynu. Mae'r cynigion a wneir yn y strategaeth yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn ac yn cynnwys cynigion i:
 - 1) **ad-drefnu sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc** drwy:
 - i) ymateb i'r gostyngiad mewn galw
 - (a) datgomisiynu capasiti gormodol
 - (b) adolygu gwasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well.
 - 2) **gwella adsefydlu a lleihau aildroeddu** drwy:
 - i) comisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol drwy gynnwys partneriaid cydgomisiynu'n well
 - ii) cydweithio'n effeithiol â darparwyr i wella gwaith adsefydlu a lleihau aildroeddu gan bobl ifanc sy'n gadael y ddalfa.
7. Bydd cyflenwi'r uchod yn galluogi'r YJB i fodloni ymrwymadau ei adolygiad o wariant, gan ddefnyddio adnoddau sefydliadau diogel yn fwy effeithlon. Dylai hefyd gyfrannu at ganlyniadau mwy cadarnhaol i blant a phobl ifanc wrth gael eu lleoli mewn sefydliadau carcharu a'u gadael.
8. Pan fo'n bosibl, rydym wedi canfod costau a buddion y cynigion a phennu eu gwerth arian. Fodd bynnag, ar gyfer llawer o'r cynigion nid oeddem yn gallu cyflwyno costau a buddion ariannol gan y byddant yn dibynnu ar fanylion penodol y prosiectau (megis, er enghraifft, y safleoedd a ddewisir i gynyddu unedau cymorth dwys). Datblygir achosion busnes i'r cynigion unigol i asesu eu costau a'u buddion, eu gwerth am arian a'u fforddiadwyedd.

³ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2010) *Torri'r Cylch*: Cosbi, Adsefydlu a Dedfrydu Troseddwyr yn Effeithiol. Llundain: Llywodraeth EM.

9. Nid yw'r YJB yn cyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Mewn llawer o achosion, caiff gwasanaethau a gyflenwir i blant a phobl ifanc yn y ddalfa eu comisiynu gan asiantaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r cynllun datblygu'n rhoi cyfle i'r llywodraeth amlinellu ei disgwyliadau gan ddarparwyr.

Sefydliadau o fewn cwmpas y cynigion

10. Dim ond yng Nghymru a Lloegr y bydd y cynigion a amlinellir yn yr Asesiad o Effaith hwn yn effeithiol.
11. Y prif grwpiau y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt yw:
- darparwyr sefydliadau diogel presennol – NOMS, darparwyr preifat ac awdurdodau lleol
 - darparwyr trydydd sector sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau carcharu a gwasanaethau adsefydlu
 - sefydliadau sy'n cynrychioli buddion plant yn y system cyfiawnder troseddol
 - darparwyr addysg sy'n darparu cyrsiau addysg a hyfforddi yn y ddalfa
 - awdurdodau lleol – yn enwedig timau troseddwyr ifanc a gwasanaethau plant
 - y GIG (Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol)
 - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
 - darparwyr tai.

Cost a buddion

12. Nid yw'r cynigion yn y cynllun datblygu sefydliadau diogel yn rhoi manylion gweithredol. Mae costau a buddion cysylltiedig yn sensitif i fanylion cynllun terfynol y cynigion polisi. Bydd pob haen gwaith unigol yr ymrwymir iddo yn y cynllun datblygu'n cael ei achos busnes ei hun, gan gynnwys asesiad o'r costau a'r buddion a ragwelir.

Strwythur yr Asesiad o Effaith


13. Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r achos sylfaenol: y tybiaethau y mae'r YJB wedi eu gwneud am dueddiadau'r dyfodol os na chaiff dim o'r newidiadau a amlinellir yn y strategaeth hon eu rhoi ar waith, ac os na cheir dim newid mewn polisiâu ac arferion. Yna, mae'r Asesiad o Effaith yn asesu effaith yr opsiynau a gynigiwyd. Caiff y ddau opsiwn yn yr Asesiad o Effaith (ad-drefnu'r sefydliadau a gwella adsefydlu) eu cymharu'n ôl â'r achos sylfaenol, nid yn erbyn ei gilydd.

Achos sylfaenol – opsiwn 0: gwneud dim

14. Mae'r achos sylfaenol yn tybio na cheir newid i natur na chyfansoddiad y sefydliadau diogel. Byddai'r YJB yn parhau i gomisiynu'r un nifer o leoedd – 2,508 ym mis Ionawr 2012 – gan dri sector gwahanol. Mae'r achos sylfaenol yn tybio y bydd y galw am leoedd mewn sefydliadau diogel yn parhau i ostwng dros gyfnod yr adolygiad o wario heb wneud dim addasiadau i ffurfweddiad y sefydliadau.
15. Mae'r achos sylfaenol hefyd yn tybio na cheir newid i gyfraddau aildroseddu presennol plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, sef 33.3% o blant yn y system cyfiawnder ieuencid a 69.7% (o garfan 2009/10) o'r plant a phobl ifanc a leolir yn y ddalfa, o fewn blwyddyn ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa neu ar ôl dyddiad y ddedfryd ddigarchar am y trosedd gwreiddiol. Cymerwyd y ffigurau hyn o *Cyhoeddiad aildroseddu: Ystadegau aildroseddu a brofwyd – bwletin chwarterol Ebrill 2009 hyd Fawrth 2010* a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
16. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae poblogaeth y bobl ifanc mewn sefydliadau diogel wedi lleihau ac mae'n llawer is na'r lefel weithredu ddiogel. Ym mis Tachwedd 2011, cafodd cyfanswm o 2,200 o

17. Mae'r siart isod yn dangos y tueddiadau hyn mewn poblogaeth a chapasiti hyd at 2010/11. Noder bod y boblogaeth yn y ddalfa wedi gostwng i 2,200 ym mis Tachwedd 2011⁴ a bod nifer y gwelyau a gomisiynwyd wedi gostwng i 2,508.

Siart 1: Nifer y gwelyau a gomisiynwyd a nifer y bobl ifanc a gafodd eu lleoli yn y ddalfa (2006/07–2010/11)



18. Er mwyn rhoi sail i'w penderfyniadau am gomisiynu yn y dyfodol, mae'r YJB a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi datblygu proses ragfynegi i fodlu galw yn y dyfodol a'i adolygu'n rheolaidd. Mae'r wybodaeth a geir fel rhan o'r broses hon yn gyfyngedig ac at ddefnydd mewnol yn unig.
19. Yn bwysig, nid yw'r YJB yn datgomisiynu cyn gostyngiadau poblogaeth a ragfynegir, ac mae'n bwysig cael sicrwydd rhesymol bod unrhyw ostyngiadau a gynllunnir yn nifer y gwelyau a gomisiynir yn gynaliadwy dros y tymor canolig i hir. O ganlyniad, ceir oediad amser cyn gweithgarwch datgomisiynu ar ôl unrhyw ostyngiad mewn galw.
20. Mae'r model rhagfynegi'n cynnwys nifer o newidiadau polisi gyda'r nod o leihau'r galw, gan gynnwys:
- fframwaith remand newydd – ceir fframwaith mwy caeth i remandio pobl ifanc yn y ddalfa. Hefyd, caiff awdurdodau lleol gymhellant ariannol i leihau digwyddiadau remand diangen gan y byddant yn cael mwy o gyfrifoldeb ariannol am remand diogel
 - newidiadau i ddedfrydu – mwy o ddisgresiwn mewn perthynas â defnyddio mwy nag un Gorchymyn Atgyfeirio a Gorchymynion Adsefydlu leuenctid cryfach yn hytrach na charcharu
 - y cynlluniau Braenaru Dalfa leuenctid a fydd yn gweithredu mewn nifer bach o ardaloedd peilot ac yn pennu targedau i gonsortia o awdurdodau lleol i ddefnyddio llai ar y ddalfa yn gyfnewid am fuddsoddiad ymlaen llaw.
21. Yn 2010/11, gwariodd yr YJB £261.285m ar gomisiynu lleoedd diogel. Mae hyn yn ostyngiad 14.5% oddi ar £305.6m yn 2009/10.⁵ Pe baem yn parhau i gomisiynu'r un gwasanaethau yn 2012, byddai'r costau hyn yn cynyddu i £270.1m (ar ôl codiad oherwydd chwyddiant).

⁴ Ciplun misol o'r boblogaeth yn y ddalfa yw'r ffigurau hyn; cânt eu cymryd ar ddydd Gwener olaf y mis neu ddydd Gwener cyntaf y mis canlynol, gan ddibynnu pa un yw'r agosaf at ddiwedd y mis. Mae'r ffigurau hyn wedi'u cymryd o systemau TG gweinyddol sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn gallu cynnwys gwallau o ran cofnodi a phrosesu data ac yn gallu newid dros amser.

⁵ Ffynhonnell: YJB (2011) *Bwrdd Cyfiawnder leuenctid Cymru a Lloegr – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon (2010/11)*. Mae'r ffigurau'n cynnwys costau hebrwng.

22. Felly, pe câi'r opsiwn sylfaenol ei ddewis, byddai adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon gan y byddai'r capasiti gormodol yn cynyddu o ganlyniad i boblogaeth sy'n lleihau. Byddai'r llywodraeth yn wynebu costau uwch oherwydd y codiad chwyddiannol ar gyfer comisiynu lleoedd yn y ddalfa. Byddai'r achos sylfaenol yn lliniaru yn erbyn y risg o fod angen prynu lleoedd yn ôl y galw ar fyr rybudd a chostau uwch am welyau pe ceid cynnydd mewn galw, oherwydd byddai gan yr ystâd ddigon o gapasiti eisoes. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, ein prif dybiaeth yw y bydd y galw am lleoedd yn y ddalfa'n parhau i leihau.

Gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu

23. Mae'r gostyngiadau sylweddol yn y galw am garcharu wedi effeithio ar natur a chyfansoddiad presennol yr ystâd mewn tair prif ffordd:
- mae llai o bobl mewn sefydliadau diogel
 - mae sefydliadau diogel yn fwy gwasgaredig yn ddaearyddol
 - mae proffil y bobl ifanc sy'n cael eu lleoli yn y ddalfa'n newid, ac mae pobl ifanc yn troseddu'n fwy cyson.
24. Mae'r achos sylfaenol yn tybio y byddai'r gwasanaethau a gomisiynir yn aros yr un fath. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwasanaethau a gyflenwir i bobl ifanc yn adlewyrchu'r newidiadau yn anghenion plant a phobl ifanc o ganlyniad i'r gostyngiad diweddar mewn galw.
25. Mae ymchwili⁶ yn dangos bod ymyriadau'n fwy effeithiol pan mae eu dwyster yn cyd-fynd ag asesiad o'r tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn aildroseddu. Mae'r asesiad hwn yn unigol i bob unigolyn ifanc. Fodd bynnag, mae Elfennau Allweddol Arferion Effeithiol⁷ y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn amlinellu arferion effeithiol mewn nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â'r risg i bobl ifanc aildroseddu. Y rhain yw:
- llety
 - asesu, cynllunio ymyriadau a goruchwyllo
 - addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
 - ymgysylltu â phobl ifanc sy'n troseddu
 - iechyd meddwl
 - rhaglenni ymddygiad troseddol
 - magu plant
 - cyfiawnder adferol
 - camddefnyddio sylweddau
 - pobl ifanc sy'n cam-drin yn rhywiol.
26. Dan yr achos sylfaenol, ni fyddai unrhyw newid i sut y caiff y gwasanaethau eu comisiynu a'u darparu mewn sefydliadau diogel i adlewyrchu'r newid yn anghenion y boblogaeth dan 18 yn y ddalfa. Felly, mae'n berygl na fyddem yn gwella o ran lleihau aildroseddu.

Yr opsiwn gorau

27. Mae'r adran hon yn disgrifio'r effaith a ragwelir ar gyfer opsiwn polisi 1. Dros gyfnod yr adolygiad o wariant, rhagwelir y bodlonir pob ymrwymiad. Cynhyrchir achosion busnes manylach fel rhan o'r prosiectau unigol i gyflawni yn erbyn yr ymrwymadau.

⁶ McGuire, J. (1995) *Beth sy'n gweithio: Lleihau Aildroseddu*. Chichester: Wiley and Sons.

⁷ Gweler <http://www.justice.gov.uk/about/yjb/effective-practice.htm>.

Opsiwn 1 – cyflenwi'r cynigion a amlinellir yn y cynllun datblygu

28. Dylid edrych ar y cynlluniau a ddisgrifir isod yn eu cyfanrwydd, a rhagwelir y byddant yn darparu buddion os cânt eu gweithredu gyda'i gilydd. Mae'r cynlluniau hyn yn rhan o ymdrechion parhaus y llywodraeth i ddiwygio cyfiawnder ieuencid ac yn benodol i gyflwyno newidiadau i'r system i fynd i'r afael â throseddau ac aildroseddau ieuencid. Mewn sefydliadau diogel, mae hyn yn golygu edrych ar ffurfweddiad yr ystâd ar hyn o bryd ar ôl y gostyngiad mewn niferoedd, yn ogystal â gwella'r gwasanaethau a gomisiynir ac a ddarperir mewn sefydliadau diogel. Mae'r cyfuniad o'r mentrau hyn yn ceisio lleihau aildroseddau gan blant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa.

Opsiwn 1a: Ad-drefnu sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc: ymateb i'r gostyngiad mewn galw drwy ddatgomiynu capasiti gormodol

29. Fel ymateb i'r gostyngiad parhaus mewn galw am leoedd yn y ddalfa, byddwn yn parhau i unioni'r ddarpariaeth â'r galw drwy ddatgomiynu capasiti gormodol. Mae'r YJB eisoes wedi cwblhau'r broses o ymestyn contractau darpariaeth cartrefi plant diogel,⁸ a byddant yn llunio contractau newydd i ganolfannau hyfforddi diogel a chartrefi plant diogel dros gyfnod yr adolygiad o wariant.
30. Rydym yn lleihau nifer y gwelyau mewn cartrefi plant diogel a gomisiynir o 183 i 166 ar 1 Ebrill 2012. Bydd hyn yn sicrhau y gall yr ystâd weithredu'n effeithlon ac yn sicrhau arbedion drwy leihau'r capasiti gormodol.
31. Mae estyniad contract y sector cartrefi plant diogel yn adlewyrchu'r gostyngiad mewn galw am leoedd i rai 10–14 mlwydd oed. O 2006/07 i 2010/11, cafwyd gostyngiad 51% yn y galw am le yn y ddalfa i'r garfan oed iau (10–14 mlwydd oed). Hefyd, mae ffigurau'r YJB yn dangos mai'r nifer cyfartalog yn preswyllo mewn cartref plant diogel yn y 36 mis o fis Tachwedd 2008 i fis Hydref 2011 oedd 166.
32. O gyllideb sylfaenol 2011/12, bydd hyn yn arwain at arbedion o £3.8m yn 2012/13 ar gontractau cartrefi plant diogel. Mae'r tabl isod yn dangos y cyllidebau blynyddol dros gyfnod y contractau, tan fis Mawrth 2014. Mae'r tabl yn tybio:
- na fydd cyfanswm nifer y gwelyau dan gontract a'r rhai sy'n cael eu contractio o gartrefi unigol yn newid o 2012/13 i 2013/14; a
 - bod cartrefi'n cael codiad chwyddiannol bob blwyddyn, ac eithrio lle mae prisiau gwelyau eisoes wedi'u pennu ar gyfer hyd y contract.

Blwyddyn	Cyllideb flynyddol yr YJB (cartrefi plant diogel)
2011/12	£38,998,000
2012/13	£35,155,000
2013/14	£36,012,000

33. Felly, caiff yr arbedion eu gwneud o ostyngiad ym mhpris gwely mewn cartref plant diogel a gostyngiad yn nifer y gwelyau a gomisiynir. Mae nifer o newidynnau'n gallu effeithio ar y gost flynyddol, gan gynnwys y codiadau y cytunir arnynt yn flynyddol â phob cartref unigol, cyfanswm y gwelyau sy'n cael eu contractio, a nifer y gwelyau sy'n cael eu contractio ym mhob cartref. Ar hyn o bryd, cyfrifir y bydd cost flynyddol gwelyau dan gontract mewn cartrefi plant diogel yn gostwng o £38.155m i £36.012m rhwng 2011/12 a 2012/13 – felly rhagwelir arbediad o £2.1m dros gyfnod y contract.


⁸ Mae'r rhan fwyaf o gontractau tair blynedd cartrefi plant diogel â'r YJB yn diweddau ar 31^{ain} Mawrth 2012. Cafodd ein cynnig i leihau nifer y gwelyau dan gontract ei ddynodi mewn cyfnod ymgynghori yn ystod yr haf diwethaf. Rhaid i estyniadau contractau cartrefi plant diogel ddechrau ar 1^{af} Ebrill 2012, felly roedd rhaid i'r cyhoeddiad hwn ddod cyn cyhoeddi'r Strategaeth Sefydliadau Diogel derfynol.

Opsiwn 1b: *Ad-drefnu sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc: adolygu gwasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion unedau pobl ifanc yn well*

34. Mae'r gostyngiad yn y galw am welyau diogel yn rhoi cyfle i adolygu'r gwasanaethau a gomisiynir ar hyn o bryd i sicrhau bod y gwasanaethau a gomisiynir yn cyfateb i'r angen a asesir. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cyflenwad daearyddol priodol o sefydliadau diogel, yn ogystal â sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn y ddalfa'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn effeithiol.
35. Dros gyfnod yr adolygiad o wariant, byddwn yn ceisio datblygu a chomisiynu mwy o unedau uwch o fewn sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18. Bydd yr unedau hyn yn darparu gwasanaethau i nifer bach o blant a phobl ifanc nad oes modd diwallu eu hanghenion yn effeithiol mewn darpariaeth sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18 y brif ffrwd, ac sydd hefyd yn anaddas i gael eu lleoli mewn canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi plant diogel oherwydd ffactorau risg ac anghenion datblygiadol eraill. Nid yw'r unedau hyn yn ddewis arall yn lle canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi plant diogel; maent yn darparu gwasanaeth ar wahân i garfan fach o bobl ifanc nad oes modd diwallu eu hanghenion yn effeithiol yn yr ystâd ehangach o sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18.
36. Rydym yn rhagweld y bydd ehangu unedau uwch o fudd i'r plant a phobl ifanc hynny sy'n cael eu lleoli ynddynt, ond y bydd hefyd yn creu buddion mwy cyffredinol i bobl ifanc yn yr ystâd sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18. Mae'r gwerthusiad o Uned Keppel yn awgrymu bod recriwtio staff pwrpasol a datblygu gweithlu arbenigol yn benodol wedi arwain at gwblhau asesiadau angen cynnar a mwy cynhwysfawr, yn ogystal â pharatoi prosesau cynllunio dedfrydau unigol effeithiol.⁹ O ganlyniad, cafodd adnoddau eu targedu'n fwy effeithlon ar sail angen a risg. Hefyd, mae canfyddiadau newydd o Uned Willow yn Sefydliad Troseddwr Ifanc Hindley yn awgrymu y cafwyd gostyngiad arwyddocaol mewn ymddygiad risg uchel megis ymosodedd a hunan-niweidio.
37. Rydym yn rhagweld y bydd cyflwyno darpariaeth uwch yn ystâd sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18 yn codi safonau ymarfer ar draws yr ystâd sefydliadau troseddwr ifanc i rai dan 18. Mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar ddysgu cynnar o gyflwyno Uned Keppel yn Sefydliad Troseddwr Ifanc Wetherby yn 2009.
38. Mae'r tabl isod yn dangos y boblogaeth dan 18 yn y ddalfa yn ôl rhanbarth eu tarddiad a rhanbarth y sefydliad. Mae'r tabl yn dangos bod y galw am leoedd diogel yn fwy na'r capasiti yn Nwyrain Canolbarth Lloegr ac yn Llundain yn enwedig.

⁹ Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2011) *Uned Keppel – Gwerthusiad Proses*.

Poblogaeth dan 18 yn y ddalfa (2010/11) – yn ôl rhanbarth tarddiad a rhanbarth y sefydliad



Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2012) *Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2010/11*. Llundain: Llywodraeth EM.

39. Dros gyfnod yr adolygiad o wariant, bydd yr YJB yn ceisio datblygu mwy o gapasiti mewn ardaloedd daearyddol â galw uchel. Bydd hyn yn helpu i leihau effaith ystâd sy'n lleihau ar nifer bach o blant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli'n bell oddi wrth eu cymunedau cartref a'u teuluoedd/gofalwyr.
40. At y diben hwn, mae'r YJB a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd wedi cytuno i gynyddu'r ddarpariaeth yn Sefydliad Troseddwyd Ifanc Cookham Wood yn Rochester (Caint). Caiff bloc llety newydd a bloc addysg ar wahân eu hadeiladu, gan gynyddu nifer y lleoedd o 131 i 208. Y bwriad ar hyn o bryd yw cael caniatâd cynllunio yn 2012 a bod wedi cwblhau'r estyniad yn 2013.
41. Nid ydym yn bwriadu cynyddu cyfanswm capasiti sefydliadau troseddwyd ifanc i rai dan 18, a byddwn yn parhau i adolygu'r capasiti presennol yn y sector hwn cyn i'r gwelyau hyn fod ar gael.

Opsiwn 1c: *Gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu: comisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol drwy gynnwys partneriaid cydgomisiynu'n well*

42. Bydd yr YJB yn parhau i asesu risg ac angen ar draws sefydliadau diogel yn rheolaidd. Dros gyfnod yr adolygiad o wariant, ac mewn partneriaeth â chyd-gomisiynwyr, bydd yr YJB yn cynnal dadansoddiad newydd o angen, gan ddod â nifer o ffynonellau tystiolaeth at ei gilydd i gael dealltwriaeth lawn o anghenion holistaidd plant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli yn y ddalfa, gan gynnwys hwyluso partneriaid lleol a chenedlaethol i adolygu anghenion iechyd, gan gynnwys:
 - iechyd meddwl
 - camddefnyddio sylweddau
 - anhwylderau ymlyniad
 - anghenion lleferydd ac iaith
 - anableddau dysgu.
43. Rydym yn cydnabod bod angen defnyddio dulliau gwahanol gyda merched er mwyn cyflawni canlyniadau cyfartal. Mae nodweddion ac anghenion merched yn y ddalfa'n wahanol i rai eu

cyfoedion gwrywaidd, gan gynnwys niferoedd uwch sydd wedi profi trais neu gam-drin, yn ogystal â lefelau uwch o iselder a phroblemau iechyd meddwl.

44. Felly, efallai y bydd angen addasu'r gwasanaethau a ddarperir i ferched mewn sefydliadau diogel ar hyn o bryd er mwyn ymdrin yn fwy effeithiol â'r rhesymau sylfaenol am eu trosedd.
45. Mae'r YJB yn cydnabod bod ar y gwasanaethau a ddarperir i ferched ar hyn o bryd angen ffocws mwy penodol ar ddiwallu anghenion y garfan hon. Felly, mae'r YJB yn bwriadu adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd i ferched yn y ddalfa gyda golwg ar wneud yr addasiadau angenrheidiol i'w trefniadau comisiynu.
46. Byddwn yn gwneud mwy i gysoni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, a chredwn mai'r ffordd orau o wneud hyn yw datblygu strwythurau comisiynu effeithiol sy'n ymgorffori barn comisiynwyr lleol a chenedlaethol ym meysydd iechyd (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau) ac addysg yn benodol.
47. Pan fo'n briodol, byddwn yn rhoi mwy o ryddid i ddarparwyr i arloesi a datblygu gwasanaethau sydd wedi'u siapio'n well o gwmpas anghenion penodol plant a phobl ifanc. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys archwilio sut y gallai dull o dalu yn ôl canlyniadau, cystadleuaeth a phrofi'r farchnad, gynyddu atebolrwydd lleol.

Opsiwn 1d: *Gwella adsefydlu a lleihau aildrosedd: cydweithio'n effeithiol â darparwyr i wella gwaith adsefydlu a lleihau aildrosedd gan bobl ifanc sy'n gadael y ddalfa*

48. Mewn partneriaeth â'u darparwyr, bydd yr YJB yn gwneud mwy i adnabod a lledaenu arferion effeithiol mewn sefydliadau diogel, gyda'r nod o sicrhau bod plant a phobl ifanc a leolir yn y ddalfa'n gallu cael ymyriadau wedi'u cynllunio'n dda sy'n ymdrin yn effeithiol â'u hymddygiad troseddol – gan gynnwys pan mae cysylltiad â gang wedi'i ganfod.

Cost y cynigion

Opsiwn 1a: *Ad-drefnu sefydliadau diogel: ymateb i'r gostyngiad mewn galw drwy ddatgomisiynu capasiti gormodol*

49. Ni fydd datgomisiynu lleoedd mewn cartrefi plant diogel yn achosi costau ychwanegol i'r YJB gan ei fod yn golygu stopio talu am welyau gwag heb ddim costau datgomisiynu unedau.
50. Gallai darparwyr cartrefi plant diogel wynebu rhai costau ychwanegol oherwydd gallai eu cost i bob gwely gynyddu os oes ganddynt lai o welyau wedi'u llenwi. Caiff rhai o'r costau hyn eu lliniaru os gellir defnyddio rhai o'r gwelyau gwag ar gyfer pobl ifanc ar leoliadau lles diogel. Mae'r angen am welyau lles diogel yn amrywio felly ni allwn bennu maint y costau posibl hynny. Fodd bynnag, yn yr ymarfer ailgystadleuaeth diweddar ag awdurdodau lleol, defnyddiodd yr YJB ddull a oedd yn sicrhau bod yr holl gartrefi plant diogel y maent yn contractio â hwy ar hyn o bryd yn aros yn ddichonadwy. Mae hyn yn lliniaru costau posibl i awdurdodau lleol.
51. Gallai fod costau pe ceid cynnydd mewn galw a fyddai'n golygu bod angen prynu lleoedd yn ôl y galw mewn cartrefi plant diogel, ar ôl lleihau nifer y lleoedd mewn cartrefi plant diogel. Ar gyfartaledd, mae cost prynu yn ôl y galw 12% yn uwch na phrynu gwelyau drwy gontractau safonol. Ni ellir rhagfynegi'r union gostau (os bydd rhai), oherwydd byddent yn dibynnu ar hyd y lleoliad a ble y mae.

Opsiwn 1b: *Ad-drefnu sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc: adolygu gwasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion unedau pobl ifanc yn well*

52. Mae costau datblygu unedau uwch yn gallu amrywio, ac mae'n dibynnu ar y cynigion penodol, y modelau a fabwysiadir, a lleoliad y sefydliad. Gall comisiynu'r unedau hyn achosi costau cyfalaf ymlaen llaw, yn ogystal â chynyddu costau gweithredu.
53. Ar gyfer Uned Keppel, sef uned fawr 48 gwely wedi'i lleoli yn sefydliad troseddwyr ifanc Wetherby a agorwyd yn 2009, roedd angen tua £13m o fuddsoddiad mewn costau cyfalaf a datblygu. Roedd y costau cynnal blynyddol yn £68,000 i bob gwely o gymharu â £57,000 ar draws gweddill yr ystâd sefydliadau troseddwyr ifanc i rai dan 18.
54. Pan na fu cyllid cyfalaf ar gael ar gyfer unedau uwch newydd, mae'r YJB wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i ganfod cyfleoedd i ddatblygu

Opsiwn 1c: *Gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu: comisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol drwy gynnwys partneriaid cydgomisiynu'n well*

55. Bydd dadansoddiad o angen yn achosi rhai costau o ran adnoddau staff a gweinyddu. Gallai cyflwyno ffyrdd newydd o gomisiynu ar ôl asesiad o angen achosi costau ychwanegol os canfyddir angen newydd. Nid yw'n bosibl meintioli costau o'r fath cyn cynnal yr asesiad o angen.

Opsiwn 1d: *Gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu: cydweithio'n effeithiol â darparwyr i wella gwaith adsefydlu a lleihau aildroseddu gan bobl ifanc sy'n gadael y ddalfa*

56. Gallai canfod a lleadaenu arferion effeithiol achosi costau ychwanegol – yn enwedig wrth werthuso ymyriadau sy'n bodoli eisoes, neu ddatblygu mecanweithiau i leadaenu dulliau ymarfer yn effeithiol. Hefyd, efallai y bydd datblygu sgiliau priodol yn achosi costau. Ni ellir gwybod yr union fanylion ar hyn o bryd; byddant yn dibynnu ar yr ymyriadau a'r gwasanaethau sy'n cael eu gwerthuso.

Buddion y cynigion

Opsiwn 1a: *Ad-drefnu sefydliadau diogel: ymateb i'r gostyngiad mewn galw drwy ddatgomisiynu capasiti gormodol*

57. Drwy sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd yn well â'r galw presennol, mae'r YJB mewn sefyllfa i gyflenwi sefydliadau diogel mwy cost-effeithiol ac effeithlon. Mae estyniad contract y sector cartrefi plant diogel yn enwedig yn rhoi cyfle i'r YJB arbed arian.
58. O gyllideb sylfaenol 2011/12, bydd y prosiect hwn yn arbed £3.8m yn 2012/13 i'r YJB. Gwneir yr arbedion drwy ostwng pris gwely a gostwng nifer y gwelyau a gomisiynir. O 1 Ebrill 2012 ymlaen, bydd cyfanswm nifer y gwelyau mewn cartrefi plant diogel wedi'u contractio gan y YJB yn gostwng o 183 i 166 (17 gwely yn llai).
59. Os bydd yr awdurdod lleol yn cymryd unrhyw un o'r 17 gwely allan o'r gwasanaeth, gall hynny hefyd arbed arian i'r awdurdod lleol os nad oes angen staffio neu wasanaethu'r gwelyau mwyach.
60. Yn yr un modd, bydd contractau newydd canolfannau hyfforddi diogel yn creu arbedion ychwanegol gan na fydd gofyn i'r llywodraeth dalu am yr elfen gyfalaf mwyach, gan y bydd y costau hyn wedi'u talu dros gyfnod y contract blaenorol.
61. Bydd unrhyw ostyngiadau mewn galw yn y dyfodol sy'n golygu mwy o ddatgomisiynu yn arwain at arbedion ychwanegol o ran costau sefydliadau diogel.

Opsiwn 1b: *Ad-drefnu sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc: adolygu gwasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion unedau pobl ifanc yn well*

62. Un budd posibl i gynyddu nifer yr unedau uwch ledled yr ystâd yw y gallai'r ystâd fod wedi'i ffurfweddu'n well i ddiwallu anghenion pobl ifanc pan maent yn y ddalfa. Bydd hyn yn galluogi targedu adnoddau'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion a'r risgiau a gyflwynir gan blant a phobl ifanc ym mhob math o sefydliad diogel. Rhagwelir y bydd hyn yn ei dro'n rhoi gwell canlyniadau a gostyngiad mewn aildroseddu gan bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.
63. Mae'r 'Gwerthusiad Proses Uned Keppel (2011)' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn datgan bod cynlluniau gofal ar yr uned yn fwy tebygol o ymgorffori gwaith ar ymddygiad troseddol, gwaith empathi â dioddefwyr, a gwaith penodol â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed na chynlluniau gofal a adolygir mewn sefydliadau troseddolwyr ifanc prif ffrwd. Awgrymodd y gwerthusiad hefyd fod yr amgylchedd unigryw a ddarperir yn Uned Keppel yn fwy tebygol o gyfrannu at ostyngiad cadarnhaol mewn ffactorau risg na lleoli'r person ifanc yn rhywle arall.

Opsiwn 1c: *Gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu: comisiynu gwasanaethau'n fwy effeithiol drwy gynnwys partneriaid cydgomisiynu'n well*

64. Drwy gyflwyno ffyrdd newydd o gomisiynu a chydweithio â'n darparwyr, byddwn yn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o ddyblygu yn y gwasanaethau a ddarperir ac yn dyrannu adnoddau'n agosach

Opsiwn 1d: *Gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu: cydweithio'n effeithiol â darparwyr i wella gwaith adsefydlu a lleihau aildroseddu gan bobl ifanc sy'n gadael y ddalfa*

65. Bwriad cefnogi darparwyr i gyflenwi ymyriadau sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael o effeithiolrwydd fydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr ymyriadau sy'n ofynnol i wneud gwahaniaeth i'w hymddygiad troseddol. Hefyd, dylai alluogi darparwyr gwasanaethau i dargedu adnoddau'n well a chyflawni canlyniadau gwell.
66. Dylai targedu ymyriadau'n well i adlewyrchu anghenion pobl ifanc yn y ddalfa ein galluogi i gynnal y cyfraddau aildroseddu presennol, o leiaf.

Prif dybiaethau a risgiau sy'n gysylltiedig â'r effaith ar fuddion

67. Ceir ansicrwydd ynghylch lefel y galw yn y dyfodol am lety diogel dan 18, sy'n golygu y gallai'r arbedion a amlinellir yma fod mewn risg pe ceid cynnydd sylweddol ac annisgwyl mewn galw.
68. Hefyd, mae'r tybiaethau canlynol yn berthnasol i'r opsiynau a gyflwynwyd:
 - i ba raddau y mae diwallu anghenion pobl ifanc yn effeithio ar aildroseddu yn y dyfodol
 - gall datblygu unedau uwch barhau i ddigwydd o fewn y ddarpariaeth bresennol a drwy adolygu trefniadau comisiynu.

Effaith net y cynigion

69. Bwriad gweithredu'r pecyn o gynigion uchod, yn ogystal â sicrhau bod y llywodraeth yn gallu arbed arian drwy ddatgomisiynu capasiti gormodol, yw darparu gwell canlyniadau i bobl ifanc drwy wneud mwy i deilwra'r gwasanaethau a gânt yn y ddalfa (er enghraifft, drwy sicrhau defnyddio mwy o unedau uwch a gwell darpariaeth adsefydlu) ac ar ôl adsefydlu yn eu cymunedau cartref.
70. Rhagfynegir y bydd prosiect estyniad contract cartrefi plant diogel yn arbed £2.1m i'r YJB rhwng 2012/13 a 2013/14. Fodd bynnag, gallai awdurdodau lleol wynebu rhai costau o ganlyniad i welyau gwag.

Profion Effaith Benodol

Dyletswyddau cydraddoldeb statudol

71. Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth.

Asesiad cystadleuaeth a phrawf o'r effaith ar gwmnïau bach

72. Gallai lleihau sefydliadau diogel o ganlyniad i'r ffaith bod llai o bobl ifanc yn y ddalfa effeithio ar gwmnïau bach a darparwyr gwasanaethau gan y bydd gan ddarparwyr lai o gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau.
73. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd hefyd i ddarparwyr gyflenwi gwasanaethau newydd.
74. Mae'r llywodraeth yn sicrhau y defnyddir arfer gorau wrth gomisiynu a chaffael gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau y caiff materion cymorth gwladwriaethol a gwrthgystadleuaeth eu lliniaru wrth ddatblygu sefydliadau diogel i rai dan 18 yn y dyfodol.

Asesiad carbon

75. Gallai datblygu cynigion yr YJB achosi allyriadau carbon uwch – yn enwedig os cytunir ar ddatblygiadau cyfalaf newydd. Nid yw'n bosibl asesu effaith hyn, gan fod y rhain yn dibynnu ar gynigion cyfalaf yn ogystal â modelau gwasanaeth sy'n dal i gael eu datblygu.
76. Câi unrhyw effaith (gan ddibynnu ar y gallu i symud ymlaen â chynigion) ei lliniaru drwy sicrhau bod unrhyw beth newydd a adeiladir yn garbon niwtral ac yn gynaliadwy.

Materion amgylcheddol eraill

77. Ceir effaith ar yr amgylchedd os bydd yr YJB mewn sefyllfa i ddatblygu adeiladau newydd. Câi unrhyw effaith (gan ddibynnu ar y gallu i symud ymlaen â chynigion) ei lliniaru drwy sicrhau bod unrhyw beth newydd a adeiladir yn garbon niwtral ac yn gynaliadwy.

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

78. Ni fydd yr ymrwymadau yn y strategaeth yn effeithio'n arwyddocaol ar boblogaeth Cymru a Lloegr, nac ar unrhyw is-grŵp amlwg yn y boblogaeth. Fodd bynnag, mae gwella canlyniadau adsefydlu a lleihau aildroseddu'n cael effaith gadarnhaol ar ffactorau risg sylfaenol sy'n sbarduno troseddu, a byddai hynny'n effeithio ar fesuryddion iechyd mwy cyffredinol ymysg pobl ifanc yn y ddalfa.
79. Mae cynigion polisi'n cynnwys ymdrechion cydgysylltiedig ar draws y llywodraeth (yn enwedig gyda'r Adran Iechyd) i roi sylw i'r problemau sy'n sail i aildroseddu, megis caethiwed i gyffuriau (gan gynnwys dibyniaeth ar alcohol), materion iechyd meddwl, yn ogystal ag anawsterau dysgu.
80. Mae buddion iechyd penodol yn cynnwys gwell gwasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion pob person ifanc – gan gynnwys anghenion iechyd meddwl a chorfforol. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw heb droseddu.

Hawliau dynol

81. Caiff y cynigion yn y strategaeth eu datblygu i ystyried gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ogystal â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant.

Prawf o'r Effaith ar Gyfiawnder

82. Gweler prif gorff yr Asesiad o Effaith hwn

Prawfesur gwledig

83. Nid ydym yn rhagweld y caiff yr ymrwymadau effaith wledig.

Datblygu cynaliadwy

84. Nid ydym yn rhagweld y caiff yr ymrwymadau yn y strategaeth effaith ar yr egwyddorion datblygu cynaliadwy canlynol:
- byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol
 - cyflawni economi gynaliadwy
 - hybu llywodraethu da; a
 - defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol.
85. Fodd bynnag, dylai cynigion y polisi gael effaith gadarnhaol ar sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn. Câi hyn ei gyflawni drwy leihau aildroseddu gan blant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa a lleihau nifer y dioddefwyr o ganlyniad.

Asesiad o Effaith ar Breifatrwydd (prawf effaith sy'n benodol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder)

86. Nid yw'r ymrwymadau yn y strategaeth yn golygu prosesu na dosbarthu data personol.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfraddoldeb

87. Mae Asesiad o Effaith ar Gyfraddoldeb ar wahân wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth hon.

Atodiadau

Dylid defnyddio Atodiad 1 i amlinellu'r Cynllun Adolygu Ar Ôl Gweithredu a fanylir isod. Gellir ychwanegu mwy o atodiadau os yw'r Profion o Effaith Benodol yn rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i ddealltwriaeth gyffredinol o ddewisiadau polisi.

Atodiad 1: Cynllun Adolygiad Ar Ôl Gweithredu (PIR)

Dylid cynnal PIR, fel rheol rhwng tair a phum mlynedd ar ôl gweithredu'r polisi, ond dan amgylchiadau eithriadol gallai cyfnod hwy fod yn fwy priodol. Os yw'r polisi'n destun cymal machlud, dylid cynnal yr adolygiad yn ddigon cynnar i ddatgan adnewyddu neu ddiwygio unrhyw ddeddfwriaeth cyn y dyddiad dod i ben. Dylai PIR archwilio i ba raddau y mae'r rheoliadau a weithredir wedi cyflawni eu hamcanion, asesu eu costau a'u buddiannau a nodi a oes unrhyw ganlyniadau difwriad iddynt. Amlinellwch y Cynllun PIR fel y manylir isod. Os nad oes cynllun i gynnal PIR, rhwng resymau isod.

Sail yr adolygiad: [Gallai sail yr adolygiad fod yn statudol (ffurfio rhan o'r ddeddfwriaeth), h.y. cymal machlud neu ddyletswydd i adolygu, neu gallai fod ymrwymiad gwleidyddol i adolygu (PIR)]

Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar gymysgedd o ofynion statudol (er enghraifft, lle mae angen darpariaeth statudol i newid ffurfweddiad sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc), ymrwymadau adolygu polisi ac ymrwymadau gwleidyddol, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o ymrwymadau yn y cynllun.

Amcan yr adolygiad: [A fwriedir iddo fod yn wiriad cymesur bod rheoliadau'n gweithredu'n unol â'r disgwyl i ymdrin â'r broblem neu'r pryder?; ynteu'n ffordd o archwilio'r dull polisi a ddefnyddir yn fwy cyffredinol?; ynteu fel cysylltiad rhwng amcan polisi a chanlyniad?]

Bydd gan yr Adolygiad amrywiaeth o amcanion, gan ddibynnu ar yr opsiynau polisi penodol dan sylw. Bydd y rhain yn cynnwys:

- archwilio a yw mentrau polisi newydd yn gweithredu yn ôl y disgwyl
- archwilio effaith polisiâu ar gyfraddau aildroseddu a mesurau eraill, meddalach, sy'n ymwneud â lles plant sy'n gadael y ddalfa
- canfod a oes gwerth am arian wedi'i gyflawni.

Dull a rhesymeg yr adolygiad: [e.e. disgrifiwch yma ddulliau'r adolygiad (gwerthusiad manwl, adolygu cwmpas data monitro, sganio safbwyntiau rhanddeiliaid, ac ati) a'r rhesymeg y tu ôl i ddewis dulliau o'r fath]

Bydd yr adolygiad yn mabwysiadu dull amlochrog, gan ddibynnu ar y polisi penodol sy'n cael ei adolygu. Y prif ddulliau a ddefnyddir yw:

- parhau i ddefnyddio data monitro YJB presennol
- gwerthuso effaith darpariaethau gwasanaethau newydd
- ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, naill ai fel dull ynddo'i hun neu i ategu'r dulliau eraill.

Sylfaen: [Y sefyllfa bresennol (sylfaenol) y gellir mesur y newid a gyflwynir gan y ddeddfwriaeth yn ei herbyn]

Byddwn yn defnyddio llawer o ffynonellau data sylfaenol i ymdrin â chyfraddau aildroseddu plant sy'n gadael y ddalfa. Byddwn hefyd yn defnyddio data sylfaenol presennol am gostau presennol sefydliadau diogel i fesur effeithiau ar arbedion.

Meini prawf llwyddiant: [Meini prawf sy'n dangos bod amcanion y polisi wedi'u cyflawni fel y'u hamlinellir yn yr asesiad terfynol o effaith; meini prawf i addasu neu ddisodli'r polisi os nad yw'n cyflawni ei amcanion]

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o feini prawf llwyddiant i adlewyrchu'r gwahanol amcanion y mae'r ymrwymadau'n seiliedig arnynt. Y prif rai fydd:

- lleihau aildroseddu gan bobl ifanc sy'n gadael y ddalfa
- cyflawni gwell gwerth am arian
- cyrraedd targedau'r adolygiad o wariant.

Trefniadau gwybodaeth monitro: [Rhowch fwy o fanylion y trefniadau presennol/a gynllunnir i ganiatáu casglu gwybodaeth monitro'n systematig er mwyn adolygu'r polisi yn y dyfodol]

Mae llawer o'r data monitro sy'n ofynnol ar gael o gyfresi ystadegol presennol yn hanesyddol a cheir cynlluniau i barhau i gasglu data o'r fath dros gyfnod yr adolygiad. Mae'r data hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth rheoli fewnol am sefydliadau diogel
- adroddiadau monitro'r YJB
- yr adolygiad a gomisiynwyd gan yr YJB o effeithiolrwydd cymharol sefydliadau diogel (dylai fod ar gael yn 2013)
- ystadegau dedfrydu

- ystadegau lleoli

Rhesymau am beidio â chynllunio adolygiad: [Os nad oes cynllun i gynnal PIR, rhwch resymau yma]
Amherthnasol